*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **19 Mawrth 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cymeradwyo cynlluniau llesiant lleol drafft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno cynlluniau llesiant lleol drafft pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gogledd Cymru, i'w cymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Byrddau i baratoi a chyhoeddi eu cynlluniau llesiant lleol cyntaf erbyn 3 Mai 2018.

3 Cyn bod modd cyhoeddi'r cynlluniau llesiant lleol hyn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan aelodau statudol unigol y Byrddau sydd wedi'u llunio, a hefyd gan y Byrddau eu hunain.

4 Felly mae'r adroddiad yn cyflwyno cynlluniau llesiant lleol drafft Byrddau Gwynedd a Môn; Conwy a Sir Ddinbych; Sir y Fflint; a Wrecsam (Atodiad 1), i'w cymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr aelodau'n cymeradwyo, i'w cyhoeddi, gynllun llesiant lleol drafft:
- (i) BGC Gwynedd a Môn;
- (ii) BGC Conwy a Sir Ddinbych;
- (iii) BGC Sir y Fflint; a
- (iv) BGC Wrecsam.

6 Os bydd unrhyw un o'r cynlluniau llesiant lleol drafft yn y rhestr uchod yn cael eu diwygio ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod, ond cyn cael eu cyhoeddi gan y BGC, mae'r aelodau'n awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i benderfynu ar ran yr Awdurdod a yw'r newidiadau'n ddigon arwyddocaol i fod angen cael eu hail-gyflwyno i'r Awdurdod i'w ystyried ymhellach.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

8 Yn Ebrill 2016, fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardaloedd pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i'r PGCau weithredu ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gyfrannu at gyflawni "nodau llesiant" cenedlaethol a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

9 Mae'r BGCau yn cynnwys pedwar sefydliad fel aelodau statudol, sef yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru.

10 Rhaid i'r BGCau wahodd Gweinidogion Cymru, y Prif Gwnstabl, comisiynydd yr heddlu a throseddu, rhai gwasanaethau prawf ac o leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol yn eu hardal, i gymryd rhan yng ngwaith y bwrdd ond heb ddod yn aelodau statudol.

11 Caiff y BGCau hefyd benderfynu gwahodd sefydliadau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus i gymryd rhan yng ngwaith y bwrdd, eto heb ddod yn aelodau statudol.

12 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i ddau neu ragor o fyrddau naill ai uno neu gydweithio â'i gilydd os ydynt o'r farn y byddai hynny'n gymorth iddynt gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Mae byrddau Gwynedd a Môn wedi dewis cydweithio heb uno; mae byrddau Conwy a Sir Ddinbych wedi dewis uno; mae bwrdd Sir y Fflint a bwrdd Wrecsam wedi cadw byrddau ar wahân.

13 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd greu cynllun llesiant lleol sy'n nodi sut mae'n bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Hefyd, rhaid i bob bwrdd osod amcanion lleol i geisio gwneud y gorau o'i gyfraniad at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn ei ardal, a chymryd pob cam rhesymol i'w cyrraedd.

14 Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ers ei sefydlu, mae wedi bod yn ofynnol i'r byrddau wneud y canlynol:

a) paratoi a chyhoeddi, erbyn 3 Mai 2017, asesiad o sefyllfa llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal; a

b) paratoi a chyhoeddi, erbyn 3 Mai 2018, gynllun llesiant lleol ar gyfer ei ardal, gan nodi'r amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyrraedd.

**GWYBODAETH**

15 Yn dilyn cyfnod dwys o waith casglu gwybodaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd, cyfarfodydd a gweithdai, fe wnaeth y pedwar bwrdd yng Ngogledd Cymru gyhoeddi eu hasesiadau llesiant fel y cynlluniwyd yn 2017. Gofynnwyd am adborth gan drigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr, ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf anfonwyd copïau at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdodau lleol.

16 Bu'r asesiadau'n ystyried cryfderau ac asedau ardaloedd lleol, y bobl a'r cymunedau sy'n byw ynddynt a'r cyfleoedd i'r BGC nawr ac yn y dyfodol. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn sail i drafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid er mwyn canfod themâu cyffredin y gallai aelodau'r byrddau ddylanwadu arnynt drwy gydweithio. Defnyddiodd pob bwrdd y themâu hyn i ddatblygu eu hamcanion ar gyfer y cynlluniau llesiant lleol.

17 Mae'r cynlluniau llesiant lleol drafft sy'n atodedig (Atodiad 1) yn cynrychioli pen draw dwy flynedd o waith gan y pedwar bwrdd yng ngogledd Cymru. Rhaid cyhoeddi'r rhain erbyn 3 Mai 2018, ond cyn y gellir eu cyhoeddi rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan bob un o'r pedwar partner statudol, a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hunain.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiad uniongyrchol ar gyflawni amcanion llesiant yr Awdurdod ei hun – mae'r cynlluniau llesiant lleol yn ymwneud ag amcanion llesiant y pedwar BGC yng Ngogledd Cymru. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau hysbys ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y gofynnir am rywfaint o gyfraniadau ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol drwy'r BGCau. |
| Cyfreithiol | Yn gymorth i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio, ond mae'n bosibl y bydd y gwaith o gynllunio a chyflawni'r amcanion llesiant yn golygu defnyddio adnoddau GTAGC. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Ni chanfuwyd goblygiadau, ond bydd effaith camau penodol yn cael ei hasesu ar wahân. |
| Risgiau | Gan fod angen mynychu pedwar BGC, a chyflawni pedwar cynllun llesiant lleol, gallai'r Gwasanaeth gael trafferth cynnal lefel briodol o gyfranogiad.<br>Os bydd unrhyw un o aelodau statudol y BGC yn penderfynu ar hyn o bryd i beidio â chymeradwyo'r cynlluniau llesiant lleol, mae perygl y bydd y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau llesiant yn cael ei golli. |